

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

ATODIAD I

Cliciwch ar y penawdau i ganfod [canllaw cyffredinol <C:\Users\nhinton\Documents\Offline Records \(EP\)\General - Human Resources - Equal Opportunities - Line Manager\Revised Draft Guidance on Partnership EIA Form 30 July 2014.DOCX>](C:\Users\nhinton\Documents\Offline Records (EP)\General - Human Resources - Equal Opportunities - Line Manager\Revised Draft Guidance on Partnership EIA Form 30 July 2014.DOCX) neu ganllaw'r isadran gydag enghraifft. **Mae gwybodaeth ategol i'w chael yn yr atodiadau ar ddiwedd y canllaw.**

Pan fyddwch yn dechrau asesu eich cynnig, trefnwch i gwrdd â Tim Greaves, Cydlynnydd Cydraddoldeb, ar gyfer cyngor penodol. Anfonwch y ffurflen wedi ei chwblhau ato iddo'i gwirio'n derfynol ac fel y gall ei chyhoeddi ar dudalennau gwefan cydraddoldeb Bro Morgannwg.

Cysylltwch hefyd â Tim Greaves os byddwch angen y ffurflen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yma ar fformat amgen.

1. [Beth ydych chi'n ei asesu?](#)

ion Refeniw Cyllideb Terfynol 2017/18

2. [Pwy sy'n gyfrifol?](#)

Enw		Teitl y Swydd:	
Timoedd	Tîm Rheoli Corfforaethol	Cyfarwyddiaeth:	Pob Gwasanaeth

3. [Pryd mae'r asesiad yn cael ei gynnal?](#)

Dyddiad dechrau'r asesiad	Tachwedd 2016
----------------------------------	---------------

4. [Disgrifiwch y cynnig?](#)

Beth yw prwpas yr asesiad?

Mae'r cynigion yn manylu ar gyllideb refeniw holl wasanaethau'r awdurdod ar gyfer

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

2017/18 a chyllidebau dangosol ar gyfer 2018/19 a 2019/20.

Pam fod angen i chi ei roi ar waith?

Mae gofyn i'r Cyngor dan y statud i osod lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 erbyn 11 Mawrth 2017. Er mwyn cyflawni hyn rhaid creu a chytuno ar gyllideb refeniw wedi ei mantoli.

A oes angen i ni ymrwymo adnoddau sylweddol iddo (megis arian neu amser staff)?

Cyllideb refeniw net arfaethedig yr awdurdod ar gyfer 2017/18 yw £215.72 miliwn. Mae'r gyllideb wedi ei datblygu gan Weithgor y Gyllideb yn dilyn trafodaethau gyda Chyfarwyddwyr ac aelodau Cabinet priodol.

Beth yw'r canlyniadau a fwriedir gan y cynigion?

I gael cyllideb wedi ei mantoli sy'n gytûn ar y cwmpas costau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Pwy mae'r cynnig yn effeithio arno?

Mae'n effeithio ar bawb sy'n gweithio i'r cyngor, ei gwsmeriaid a phreswylwyr Bro Morgannwg

A fydd y cynnig yn effeithio ar sut mae sefydliadau eraill yn gweithio?

Bydd hyn yn amrywio yn ôl y gwasanaeth a natur y newidiadau sydd angen eu gwneud. Lle gallai'r rhain gael effaith fawr ar sefydliadau eraill (e.e. newidiadau i gytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau trydydd sector), bydd y rhain yn destun ymgynghoriad a dadansoddi pellach cyn unrhyw newid polisi neu i unrhyw arbediad gael ei roi ar waith. Bydd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn archwilio modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau a allai gael effaith uniongyrchol ar sefydliadau eraill.

A fydd y cynnig yn effeithio ar sut y byddwch yn darparu gwasanaethau?

Bydd effaith y cynigion cyllideb refeniw terfynol ar gyfer 2017/18 yn amrywio yn ôl y gwasanaeth a natur y newidiadau sydd i gael eu gwneud. Lle gallai'r rhain gael effaith fawr ar gleientiaid â nodweddion a ddiogelir, bydd y rhain yn destun ymgynghoriad a dadansoddi pellach cyn unrhyw newid polisi neu i unrhyw arbediad gael ei roi ar waith.

Wrth adolygu'r holl bwysau ar gostau, mae'r cyngor wedi dyrannu adnoddau prin sydd ar gael er mwyn diwallu ei flaenoriaethau pennaf. Mae'r broses hon yn ystyriol o'r effaith ar

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

wahanol wasanaethau a'u cleientiaid. Mae cyllid ychwanegol wedi ei ddyrannu yn 2017/18 er budd Addysg ac Ysgolion a Gwasanaethau Oedolion. Mae'r arbedion sy'n ofynnol gan yr holl wasanaethau wedi eu cyflwyno'n raddol dros 3 blynedd er mwyn caniatáu digon o amser i fynd i'r afael â phwysau costau presennol tra'n sicrhau bod yr arbedion yn y meysydd hynny yn bosib ac yn gynaliadwy, a bod yr effeithiau cydraddoldeb posib o weithredu'r arbedion a/neu newid y polisi presennol wedi eu hystyried yn llawn. Mae Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor wedi nodi nifer o gyfrannau i fwrw ymlaen â nhw yn ystod 2017/18 a fydd hefyd yn golygu ymgysylltu ac ymgynghori â'r rhai gaiff eu heffeithio.

A fydd y cynnig yn effeithio ar bolisiau neu arferion eraill?

Lle bydd hyn yn amlwg caiff sylw dyladwy ei roi i'r effaith posib ar un ai bolisiau neu arferion a'r goblygiadau posib wedi hynny ar gleientiaid neu grwpiau sy'n ateb gofynion y nodweddion a ddiogelir yn unol â'r prosesau presennol ar gyfer penderfynu ar effeithiau cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu gaiff eu cymryd dan Raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor.

A allwch chi newid y cynnig fel ei fod yn hyrwyddo cyfle cyfartal ymhellach ac yn meithrin perthnasoedd da?

Bydd unrhyw newidiadau ar bolisiau yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i ganlyniadau ymarferion ymgynghori gyda'r unigolion neu'r grwpiau dan sylw. Lle bo hynny'n bosib cymerir camau gweithredu lliniarol i leihau'r effaith ar y rheiny sy'n arddangos nodweddion a ddiogelir.

Sut fyddwch yn cyflawni'r newidiadau arfaethedig?

Mae amryw fyrddau project wedi neu am gael eu sefydlu er mwyn rhoi'r amryw newidiadau i'r gwasanaethau, sydd eu hangen i fodloni'r gyllideb, ar waith.

Pwy fydd yn cyflwyno'r cynnig?

Rhaid i bob Prif Swyddog sicrhau bod eu gwariant o fewn y gyllideb a gytunwyd a bod yr AEC angenrheidiol wedi eu cwblhau.

Sut fyddwch yn gwybod os ydych wedi cyflawni pwrpas y cynnig?

Bydd monitro rheolaidd yn digwydd ac adroddir arno i'r Cabinet. Caiff cynnydd hefyd ei adrodd wrth Fwrdd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

5. Pa dystiolaeth ydych chi'n ei defnyddio?

Ymgysylltiad (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Trafodwyd y cynigion cyllideb referiw cychwynnol gan y Cabinet, pob Pwyllgor Craffu a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2016. Cwblhawyd sesiwn Holi ac Ateb ar-lein gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr, trwy gyfrwng cyfrif Twitter y Cyngor ym mis Ionawr 2017.

Ymgysylltiad (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Yr ymarferion y tynnwyd arnynt yw'r rhaglen ymgysylltu 'Beth am siarad am Lesiant' a gwblhawyd er mwyn bwydo Asesiad Llesiant drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac Arolwg Barn Gyhoeddus 2016. Arweiniodd hyn at ymgysylltu gyda dros 2,000 o breswylwyr ynghylch gwasanaethau'r Cyngor a'r gyllideb. Nododd prif ganfyddiadau'r ymgynghoriad faterion yn ymwneud â chyflwr ffyrdd a phalmentydd, trafndiaeth gyhoeddus a gwasanaethau pobl hŷn. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn gytûn fod creu incwm yn ddull y dylai'r cyngor ei ddefnyddio fel ffordd o ateb y diffyg yn y gyllideb.

Data ac ymchwil cenedlaethol

Mae'r cyllid gaiff ei roi gan Lywodraeth Cymru yn allweddol wrth osod y gyllideb a derbyniwyd y setliad terfynol ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r modd y caiff y setliad ei gyfrifo yn fater o adolygiad parhaus o ddata a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Data ac ymchwil lleol

Mae'r fethodoleg ariannu yn defnyddio data manwl sy'n ymwneud â bro Morgannwg e.e. poblogaeth, nifer y plant o oed ysgol ayb.

6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?

A yw'n dangos beth fydd yr effaith (cadarnhaol a negyddol)?

Gall pob gwasanaeth dynnu ar amrywiaeth o ddata ystadegol presennol a data arall o safbwynt eu grwpiau cleientiaid mewnol ac allanol perthnasol (gan gynnwys staffio).

Ymhle mae'r bylchau?

Yn ystod 2015/16, lluniwyd asesiadau sylfaenol ar gyfer pob gwasanaeth fel rhan o Raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor sydd wedi bwydo'r broses ar gyfer pennu'r modelau gorau ar gyfer darparu gwasanaeth. Caiff y wybodaeth ddiweddaraf o safbwynt

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

gwasanaethau unigol ei defnyddio i wneud yn iawn am unrhyw fylchau.

Beth wnewch chi ynglŷn â hyn?

Bydd cynigion am arbedion a newidiadau polisi, a allai gael effaith fawr ar gleientiaid, yn amodol ar ymgynghori a dadansoddi pellach cyn i unrhyw arbediad/newid polisi gael ei roi ar waith.

Pa ddata monitro fyddwch yn ei gasglu?

Byddwn yn parhau i fonitro'r gyllideb refeniw ar draws yr holl wasanaethau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gyllideb derfynol a gytunwyd a chanlyniad yr AEC unigol gaiff eu cwblhau.

Pa mor aml fyddwch chi'n dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?

Caiff adroddiadau cyllideb misol ac adroddiadau Dangosyddion Perfformiad chwarterol eu cyflwyno i'r cabinet ac i Bwyllgorau Craffu.

Bydd unrhyw adroddiadau ychwanegol yn ddibynnol ar union natur yr arbediad neu newid polisi (gan gynnwys Ail-lunio Gwasanaethau), canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r data gaiff ei gasglu.

Ymhle fyddwch chi'n cyhoeddi'r adroddiadau monitro a'r data?

Mae pob adroddiad pwyllgor ar gael ar wefan y Cyngor.

Bydd pob newid mewn polisi neu gynnig arbediad sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

7. [Effaith](#)

A oes effaith?

Bydd effaith y cynigion cyllideb refeniw terfynol ar gyfer 2017/18 yn amrywio yn ôl y gwasanaeth a natur y newidiadau sydd i gael eu gwneud.

Mae pob maes ar gyfer arbedion a newidiadau posib mewn polisi wedi bod yn destun ymarferiad cwmpasu cychwynnol er mwyn pennu os oes unrhyw effaith cydraddoldeb posib. Bydd unrhyw faes arbedion neu newid polisi allai gael effaith ar nodwedd a ddiogelir yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn cyn i'r arbediad/newid polisi gael ei roi ar waith. Yn ychwanegol, bydd y gwasanaethau hynny sy'n cwmpasu Rhaglen

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Ail-lunio Gwasanaethau'r cyngor yn cynnwys ymgysylltu helaeth ac ymgynghori â chleientiaid a staff.

Os na fydd effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros feddwl hynny? Darparwch dystiolaeth.

Dd/B

Os fydd effaith tebygol, beth yw hwnnw?

Lle gallai newidiadau i wasanaeth gael effaith fawr ar gleientiaid a nodweddion a ddiogelir bydd y rhain yn destun ymgynghoriad a dadansoddi pellach cyn unrhyw newid polisi neu i unrhyw arbediad gael ei roi ar waith.

Sut gwyddoch chi?

Caiff ymgynghori a dadansoddi pellach ei gwblhau cyn unrhyw newid polisi neu roi unrhyw arbediad a gymeradwywyd ar waith

Beth ellir ei wneud i hyrwyddo effaith gadarnhaol?

Bydd unrhyw newidiadau ar bolisiâu yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i ganlyniadau ymarferion ymgynghori gyda'r unigolion neu'r grwpiau dan sylw. Lle bo hynny'n bosib cymerir camau gweithredu lliniarol i leihau'r effaith ar y rheiny sy'n arddangos nodweddion a ddiogelir.

Beth ellir ei wneud i leihau'r perygl o effaith negyddol?

Caiff camau gweithredu lliniarol eu cymryd i leihau unrhyw effaith negyddol. Bydd natur yr ymyriad yma yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaeth a'r newidiadau arfaethedig.

A oes angen triniaeth fwy ffafriol er mwyn cael canlyniad hafal? (Anabledd yn unig)

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Caiff hyn ei ystyried fel unrhyw ran o broses rhoi ar waith

A fydd yr effaith yn gadarnhaol, negyddol neu niwtral?

Mae pob maes ar gyfer arbedion a newidiadau posib mewn polisi wedi bod yn destun ymarferiad cwmpasu cychwynnol er mwyn pennu os oes unrhyw effaith cydraddoldeb posib. Bydd unrhyw faes arbedion neu newid polisi allai gael effaith ar nodwedd a ddiogelir yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn cyn i'r arbediad/newid polisi gael ei roi ar waith.

8. Monitro effaith barhaus

Y dyddiad y byddwch yn monitro cynnydd

Parhaus trwy gydol y flwyddyn ariannol

Y mesurau y byddwch yn eu monitro

Byddwn yn parhau i fonitro'r gyllideb refeniw ar draws yr holl wasanaethau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gyllideb derfynol a gytunwyd a chanlyniad yr AEC unigol gaiff eu cwblhau er mwyn cyflawni'r gyllideb derfynol a gytunwyd.

Y dyddiad y byddwch yn adolygu'r cynnig a gafodd ei roi ar waith a'i effaith

Fel rhan o'r cynigion cyllideb refeniw cychwynnol ar gyfer 2018/19

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

9. [Camau pellach o ganlyniad i'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb](#)

Canlyniadau Posib	Dywedwch pa rai sy'n berthnasol
Dim newid mawr	Dim potensial ar gyfer gwahaniaethu neu effaith negyddol o ganlyniad i'r cynigion hyn
Addasu'r polisi	
Parhau â'r polisi	
Atal a dileu'r polisi	

10. [Canlyniadau a Chamau](#)

<p>Argymhell camau gweithredu i'r Uwch Dîm Rheoli</p> <p>Argymhellir fod y gyllideb refeniw yn cael ei hystyried gan y Cabinet a'r cyngor llawn a bod canlyniadau ac effeithiau yn cael eu monitro trwy gydol y flwyddyn</p>
<p>Canlyniad yn dilyn ystyriaeth ffurfiol o'r cynnig gan yr Uwch Dîm Rheoli</p> <p>Cyllideb wedi ei thrafod yn y Tîm Rheoli Corfforaethol</p>

11. [Nodyn Pwysig](#)

<p>Lle nodwyd effeithiau gennych, rhaid i chi nodi hyn yn eich adroddiad Cabinet pan fyddwch yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer eich cynnig.</p>

12. [Cyhoeddiad](#)

<p>Ymhle fyddwch chi'n cyhoeddi eich cynnig a gymeradwywyd a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</p> <p>Gwefan y Cyngor</p> <p>Yn ogystal â lle bynnag y bwriadwch gyhoeddi eich cynnig a gymeradwywyd a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rhaid i chi hefyd anfon copi at Tim Greaves, Cydlynnydd Cydraddoldeb, i'w cyhoeddi ar dudalennau cydraddoldeb gwefan Bro</p>

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Morgannwg.

13. [Awdurdodiad](#)

Cymeradwywyd gan (enw)	Carys Lord
Swydd (uwch reolwr)	Pennaeth Cyllid
Dyddiad cymeradwyo	13 Chwefror 2017
Dyddiad adolygiad	Tachwedd 2017